



CYNORTHWYDD CYNLLUNIO, PERFFORMIAD A RISG

CYFLOG - GRADD 6: O £21,695 - £22,571 (Yn amodol ar werthusiad swydd)

Mae swydd **barhaol** ar gael yn ein Hadran Cynllunio, Perfformiad a Risg fel Cynorthwydd Risg a Chynllunio. Mae'r rôl hon wedi'i lleoli yn ein Pencadlys yn Llantrisant ac mae'n swydd llawn amser (**37 awr yr wythnos – Cymraeg yn hanfodol**).

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn adrodd i'r Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Risg, a bydd yn gyfrifol am gasglu a dilysu gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan ddefnyddio cyfres o systemau a phrosesau TGCh.

Bydd y rôl yn gyfrifol am roi arweiniad i staff i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei mewnbynnu'n gywir ac yn amserol i'n System Gwybodaeth Rheoli Busnes, yn unol â'n fframweithiau rheoli perfformiad a rheoli risg diweddaraf. Bydd y rôl yn cefnogi holl swyddogaethau allweddol y tîm i sicrhau llif gwybodaeth ansoddol ac amserol yn fewnol ac yn allanol i'r sefydliad.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg a chroesawn gyfathrebiadau yn y ddwy iaith. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol.

Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddo yn y cam Rhestr Fer yn cael y cyfle i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweiliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau llafar a chwestiynau cyfweiliad).

Bydd trefniadau'n cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweiliad ac efallai y bydd gwasanaeth Cyfieithu a/neu Ddehongli yn cael ei ddarparu.

Gellir lawrlwytho Ffurflen Gais, Disgrifiad Swydd a Manyleb Person o'r dudalen Gweithio i Ni/ Swyddi Gwag Diweddaraf ar ein gwefan yn www.decymru-tan.gov.uk

Dylid dychwelyd ceisiadau gorffenedig at: Y Tîm Recriwtio ac Asesu, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant CF72 8LX neu drwy law e-bost: recruitment@decymru-tan.gov.uk

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw: 13/06/2022, ganol dydd.

Cynhelir Cyfweiliadau / Proses Ddethol.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg a chroesawn gyfathrebiadau yn y ddwy iaith. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.